A oes rhaid i'm cyflogwr ddarparu dŵr yfed yn y gwaith?

Mae Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992 yn trafod y gofyniad hwn.

Mae Rheoliad 22 yn gosod gofynion ar y cyflogwr o ran darparu dŵr yfed.

Mae'n nodi:

1. Rhaid darparu cyflenwad digonol o ddŵr yfed iach i bob person sy'n gweithio yn y gweithle.
2. Rhaid i bob cyflenwad o ddŵr yfed sy'n ofynnol o dan baragraff (1) fod –
   (a) yn hygyrch ac mewn lleoedd addas; a
   (b) wedi'i farcio'n amlwg ag arwydd priodol pan fydd angen at resymau iechyd neu ddiogelwch
3. Pan fydd cyflenwad o ddŵr yfed yn ofynnol o dan baragraff (1), rhaid hefyd ddarparu digon o gwpanau addas neu lestri yfed eraill oni bai bod y cyflenwad o ddŵr yfed mewn jet ac y gall person yfed yn hawdd ohono.

Mae'r cod ymarfer cymeradwy yn nodi:
Dylid fel arfer gael dŵr yfed o gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat drwy dap ar beipen wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r brif bibell ddŵr. Fel arall, gellir cael dŵr yfed o dap ar beipen wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â thanc dŵr storio sy'n cydymffurfio â gofynion Is-ddeddfau Dŵr y DU. Yn arbennig, dylid sicrhau bod unrhyw danc dŵr, tanc neu lestr a ddefnyddir fel cyflenwad yn cael eu cadw'n lân, bod gorchudd digonol arnynt a'u bod wedi'u profi a'u diheintio fel sydd angen. Dim ond pan na ellir cael dŵr yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad y dylid darparu dŵr mewn cynhwysyddion y gellir eu hail-lenwi. Dylid cau cynwysyddion o'r fath yn addas i atal halogiad a dylid eu hail-lenwi'n ddyddiol o leiaf.

yn ôl i'r brig

Ni ddylid gosod tapiau dŵr yfed mewn mannau lle mae halogiad yn debygol, er enghraifft mewn gweithdy lle caiff plwm ei drin neu ei brosesu. Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol ni ddylent ychwaith gael eu gosod mewn lleoliad glanweithiol.

Dylid darparu cwpanau neu ficeri yfed oni bai bod y cyflenwad drwy ffynnon yfed. Os defnyddir cwpanau na ellir eu taflu dylid darparu cyfleuster er mwyn eu golchi gerllaw.

Dylid marcio cyflenwadau yfed dŵr fel hynny os bydd pobl fel arall yn gallu yfed o gyflenwadau na ddylid eu defnyddio fel dŵr yfed. Nid oes angen eu marcio os yw cyflenwadau dŵr oer na ddylid eu hyfed wedi'u marcio felly.

Mae'r canllaw yn nodi:

Dylid marcio'n glir gyflenwadau dŵr sy'n debygol o fod yn dra halogedig, megis mewn cyflenwadau a ddefnyddir at ddiben prosesau yn unig, drwy osod arwydd addas. Gellir hefyd ddarparu systemau dosbarthu dŵr potel/dŵr fel ail ffynhonnell o ddŵr yfed.

Cyfeiriad
L24, Workplace Health, Safety and Welfare, ACOP and guidance, (ISBN 0717604136 – ar gael gan HSE Books)